

# **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 22_Chwefror – Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cyflwyniad

Mae'n bleser cyflwyno ail rifyn ar hugain o 'Materion Ewropeaidd', sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion Ewropeaidd.

Gan mai hwn yw'r rhifyn olaf yn ystod y trydydd Cynulliad, mae'n briodol i ni edrych yn ôl dros uchafbwyntiau'r pedair blynedd diwethaf, sy'n cynnwys y cyfnod yr oedd Sandy Mewies AC yn gadeirydd y Pwyllgor, yn ogystal â rhoi'r newyddion am y digwyddiadau diweddaraf ym mis Chwefror a mis Mawrth.

Mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â materion Ewropeaidd ac allanol mewn ffordd strategol dros y pedair blynedd diwethaf, ac adlewyrchir hynny yn y pynciau y mae'r Pwyllgor wedi dewis canolbwyntio arnynt. Dewisiwyd y pynciau oherwydd eu pwysigrwydd i Gymru a'r cyfle y maent yn ei gynnig i sicrhau llais cryf i Gymru mewn trafodaethau ym Mrwsel. Mae hyn wedi cynnwys ymchwiliad hir i ddyfodol polisi cydlyniant yr UE, sydd hefyd wedi canolbwyntio ar adolygiad o gyllideb yr UE a goblygiadau Strategaeth Ewrop 2020 i Gymru. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ymchwiliadau i'r pynciau a ganlyn: sut mae'r protocol monitro sybsidiaredd, sy'n rhan o Gytuniad newydd yr UE, yn gweithio; goblygiadau'r gyfarwyddeb ar hawliau cleifion i ofal iechyd traws-ffiniol i Gymru; lefel cyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil, arloesedd a dysgu gydol oes yr UE; ac i ba raddau y mae Cymru'n ymgysyylltu â'r amryw ymgyrchoedd 'Blwyddyn Ewropeaidd', yn benodol, Blwyddyn Ewropeaidd 2010 ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

Ategwyd y gwaith hwn gan waith ar faterion Ewropeaidd a wnaed gan bwyllgorau eraill y Cynulliad, yn cynnwys adolygiad y Pwyllgor Menter a Dysgu o weithredu rhaglenni cronfeydd strwythurol 2007–2013 yng Nghymru, a gwaith yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Elfen amlwg o'r ddwy flynedd ddiwethaf fu'r cysylltiadau agos â phedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop. Ar ran y Pwyllgor, hoffwn bwysleisio gymaint yr ydym yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau cryf â'n cynrychiolwyr ym Mrwsel, yn cynnwys cynrychiolwyr ar Bwyllgor y Rhanbarthau, a'r diweddariadau rheolaidd a roddir ganddynt am y gwaith pwysig a wnant ar ran Cymru. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran fy olnydd/olynwyr wrth ddweud ein bod yn edrych ymlaen at barhau a datblygu'r berthynas glos hon yn ystod y pedwerydd Cynulliad.

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, roedd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn falch iawn o gael tystiolaeth gan Janusz Lewandowski, Comisiynydd Cyllideb yr UE. Roeddem wedi bwriadu ei gyfarfod yn wreiddiol ym mis Rhagfyr, tan i'r eira amharu ar ein trefniadau. Roeddwn hefyd yn falch iawn o groesawu yn ôl i Gymru Jean Yves Le Drian yn ei rôl ddeuol fel Llywydd Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol a Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw. Ynghyd â Pierre Karleskind, ei Is-lywydd, mynychodd Monsieur Le Drian gyfarfod o'n Pwyllgor yn ystod ymweliad deuddydd â Chymru.

I gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 08 Mawrth, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am waith Positive Women, yr elusen sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ac a sefydlwyd gan Kathryn Llewellyn, a aned yn Abertawe, a Siphiwe Hlophe o Swaziland. Yn y cyfarfod gyda nhw roedd yr Arglwydd Jack McConnell, cyn-Brif Weinidog yr Alban. Soniodd y tri am waith Positive Women yn Swaziland, a'u dyheadau i weithio ledled Affrica i gefnogi grwpiau brodorol sy'n hybu ac amddiffyn hawliau menywod.

Ar 07 Chwefror, mynychais gyfarfod o Fforwm y Gymuned Ewropeaidd-y Deyrnas Unedig, sef cyfarfod o gadeiryddion pwyllgorau Ewropeaidd perthnasol Tŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a ninnau, lle y buom yn trafod amryw o faterion sydd o bwys i Gymru yn cynnwys yr adolygiad o gyllideb yr UE a materion yn ymwneud â sybsidiaredd.

Croesawom nifer o ymwelwyr o bwys hefyd i'r Cynulliad yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, yn cynnwys llysgenhadon Tsieina, Colombia, Hwngari a'r UDA i'r Deyrnas Unedig; dirprwyaeth o seneddwyr o Ganada a oedd ar daith i Gymru fel rhan o ymarfer cyd-ddysgu; Uwch Gomisiynydd India i'r DU; ac, yn nes at adref, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a dirprwyaeth o Aelodau Seneddol o Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin.

Mae hyn yn fy arwain at fy sylw olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol cyn i mi roi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad ddiwedd mis Mawrth. Roedd yn destun balchder mawr i mi gael bod yn dyst i bleidlais "Ie" ysgubol gan bobl Cymru yn y refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol, a gynhaliwyd ar 03 Mawrth. Mae'r refferendwm hwn yn setlo'r cwestiwn datganoli yng Nghymru, gan roi'r hawl i'r Cynulliad gynnig a phasio deddfau newydd yng Nghymru – heb orfod gofyn am ganiatâd Llundain gyntaf – a hynny yn yr ugain maes sydd wedi'i ddatganoli.

Mae i hyn arwyddocâd hanesyddol, oherwydd y tro olaf y cafodd cyfraith Gymreig ei llunio yng Nghymru oedd yn y ddegfed ganrif o dan Hywel Dda. Dyma sybsidiaredd ar waith – rhywbeth sy'n gyfarwydd iawn i sylwebyddion Ewropeaidd.



**Rhodri Morgan AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

## Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

### Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Cyllideb yr UE a dyfodol polisi cydlyniant yr UE:** Rhoddodd Janusz Lewandowski, Comisiynydd Cyllideb yr UE, dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 01 Chwefror, a hynny trwy gynhadledd fideo o Frwsel.

- **Cyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr UE:** lansiodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn yn y Senedd ar 16 Chwefror.

- **Positive Women:** ar 08 Mawrth, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am waith elusen newydd Positive Women.

- **Prif Weinidog Cymru:** cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Prif Weinidog mewn perthynas â materion ewropeaidd ac allanol ar 15 Chwefror.

- **Adroddiad etifeddiaeth a'r rhaglen waith ar gyfer 2011:** trafodwyd yr adroddiadau hyn yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mawrth, a chymeradwywyd yr adroddiad etifeddiaeth yn ffurfiol ar 22 Mawrth.

- **Aelodau Cymru o Senedd Ewrop:** cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Derek Vaughan ASE yn ystod cyfarfod olaf y Pwyllgor ar 22 Mawrth.

- **Diweddariad gan y Comisiwn Ewropeaidd:** Ar 22 Mawrth, rhoddodd Andy Klom, pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, y wybodaeth ddiwedaraf i'r Pwyllgor am waith y Comisiwn yng Nghymru.

- **Cyfrannu i ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i'r adolygiad o gyllideb yr UE:** cyflwynodd y Cadeirydd ymateb i'r ymchwiliad hwn ar ran y Pwyllgor ym mis Chwefror, gan dynnu ar brofiad y Pwyllgor yn y maes.

- **Pwyllgor y Rhanbarthau a CALRE:** cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, sef Christine Chapman AC, Rhodri Glyn Thomas AC, a'r Cynghorydd Bob Bright (cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Chris Holley). Rhoddodd y Dirprwy Lywydd ddiweddariad am gyfranogiad y Cynulliad yn CALRE, sef y rhwydwaith Ewropeaidd o ddeddfwrfeydd rhanbarthol.

### Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Cronfeydd strwythurol:** gweithredu rhaglenni 2007–2013: gwnaeth y Pwyllgor ragor o waith yn y maes hwn a oedd yn destun ymchwiliad yn ystod 2009–2010.

- **Gweithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi yng Nghymru:** ymddangosodd Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog, a Lesley Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arleosedd a Sgiliau, gerbron y Pwyllgor ar 17 Chwefror i roi'r diweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a lansiwyd yn ystod haf 2010.

### Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Bioamrywiaeth:** cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar ei ymchwiliad i fioamrywiaeth yng Nghymru ar 31 Ionawr.

- **Paratoi'r adroddiad etifeddiaeth:** fel rhan o'r gwaith o baratoi adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor, cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth â Gweinidogion Cymru ar brif-ffrydio cynaliadwyedd a gweithredu ymrwymiadau "Cymru'n Un" Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr a mis Chwefror, ac ym mis Chwefror a mis Mawrth cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth ar yr adolygiad o'r opsiynau cyflenwi amgylcheddol yng Nghymru.

### Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

– **Adolygiad o adroddiadau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig:** cynhaliwyd sesiwn dystioaleth ar 10 Mawrth gydag undebau ffermwyr Cymru yn adolygu'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod y trydydd Cynulliad.

– **Ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd Cymreig:** cynhaliwyd sesiwn adolygu ar 08 Chwefror i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y maes hwn ers i'r Is-bwyllgor gynnal ymchwiliad i'r mater.

### Y Cyfarfod Llawn

– **Adolygiad o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin:** ar 01 Mawrth, cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

– **Trosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig:** ar 08 Mawrth, cymeradwyodd y Cyfarfod Llawn Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, sy'n trosi'n rhannol Gyfarwyddeb 2008/98/EC2 ar wastraff (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig).

## Ymchwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y trydydd Cynulliad ag iddynt ddimensiwn Ewropeaidd

**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**
– Dyfodol polisi cydlyniant yr UE (yn cynnwys yr adolygiad o gyllideb yr UE ac Ewrop 2020)
– Banc Buddsoddi Ewrop (a gafodd ei gynnwys fel rhan o'r ymchwiliad i ddyfodol polisi cydlyniant yr UE)
– Cyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil, arloesedd a dysgu gydol oes yr UE
– Ymchwiliad iechyd o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
– Cytuniad Lisbon a monitro sybsidiaredd
– Y Gyfarwyddeb ddrafft ar hawliau cleifion i ofal iechyd traws-ffiniol
– Blwyddyn Ewropeaidd Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol 2010

**Y Pwyllgor Menter a Dysgu**
– Cronfeydd strwythurol: gweithredu rhaglenni 2007–2013
– Yr Agenda Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg
– Gweithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cymru
– Creu swyddi yn yr economi werdd
– Adroddiad terfynol ar gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru

**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**
– Bioamrywiaeth yng Nghymru
– Lleihau allyriadau carbon yng Nghymru
– Llifogydd yng Nghymru

**Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**
– Cynhyrchu a hybu bwyd Cymreig
– Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
– Lles anifeiliaid a hylendid cig
– Dyfodol ucheldiroedd yng Nghymru
– Yr adolygiad o echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007–2013

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**
– Hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
– Y ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu
– Tlodi plant yng Nghymru

## Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

– Ar 07 Chwefror aeth **Rhodri Morgan AC** i gyfarfod o Fforwm y GE-DU yn rhinwedd ei swydd fel cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Yno, cyfarfu â chadeiryddion y Pwyllgorau sy'n gyfrifol am faterion Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

– Ar 09 Chwefror, aeth **Christine Chapman AC** i gyfarfod Comisiwn Economaidd a Chymdeithasol Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel, pryd y trafodwyd ei safbwynt drafft ar y Platfform Ewropeaidd yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cyndeithasol. Bydd Christine yn cyflwyno ei hadroddiad terfynol gerbron cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 31 Mawrth.

– Ar 18 Chwefror aeth Rhodri **Glyn Thomas AC** i gyfarfod o'r Comisiwn Ad Hoc Dros Dro ar yr Adolygiad o Gyllideb yr UE, a bydd hefyd yn mynd i gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 31 Mawrth.

## Ymweliadau rhyngwladol â'r Senedd

- Ar 08 Chwefror, bu dirprwyaeth o **Ranbarth Vojvodina yn Serbia**, yn cynnwys y Llefarydd, Mr Sándor Egeresi , ar ymweliad â'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn dysgu am fodel datganoli Cymru, a chawsant gyfarfod â Rosemary Butler AC, y Dirprwy Lywydd.

- Ar 15 Chwefror, mynychodd **Ei Arddechogrwydd Mr János Csák, Llysgennad Hwngari i'r DU**, gyfarfod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a chyfarfu â'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Llywydd y Cynulliad, fel rhan o'i ymweliad â Chymru.

- Ar 15 Chwefror, bu **Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw, Monsieur Jean Yves Le Drian**, a'r Is-lywydd, **Pierre Karleskind**, ar ymweliad â'r Cynulliad, gan gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol fel rhan o ymweilad a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Ar 04 Mawrth, y Senedd oedd y lleoliad i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer cyfri pleidleisiau'r **refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

- Rhwng 07 a 09 Mawrth, bu **Constance Kilimo**, uwch aelod staff o **Gynulliad Cenedlaethol Malawi**, ar ymweliad â'r Cynulliad er mwyn dysgu am ddatganoli yng Nghymru fel rhan o gyfnod o dri mis yn gweithio i Senedd yr Alban.

- Ar 08 Mawrth, ymwelodd **Ei Arddechogrwydd Liu Xiaoming, Llysgennad Tsieina i'r DU**, â'r Cynulliad.

- Ar 09 Mawrth, ymwelodd **Ei Arddechogrwydd Louis B. Susman, Llysgennad yr Unol Daleithiau i'r DU**, â'r Cynulliad.

- Ar 10 Mawrth, mynychodd **y Gwir Anrhydeddus Chris Huhne AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd**, gyfarfod o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd.

- Ar 11 Mawrth, ymwelodd **Ei Arddechogrwydd Mauricio Rodríguez Múnera, Llysgennad Colombia i'r DU**, â'r Senedd.

- Ar 14 Mawrth, cynhaliwyd derbyniad **Diwrnod y Gymanwlad** yn y Senedd, gyda gwesteion o bob rhan o'r Gymanwlad a oedd yn ymweld â Chymru fel rhan o Gynhadledd Llywodraeth Leol y Gymanwlad a drefnwyd gan Gyngor Caerdydd.

- Ar 15 Mawrth, ymwelodd **Rajesh Prasad, Dirprwy Uwch Gomisiynydd India**, â'r Senedd a chyfarfod â'r Llywydd.

- Ar 15 Mawrth, croesawyd **Prif Weinidog Trinidad a Tobago, Kamla Persad Bissessar**, i'r Cynulliad, yn ystod ei hymweliad â Chymru fel rhan o Gynhadledd Llywodraeth Leol y Gymanwlad.

- Rhwng 14 a 17 Mawrth, ymwelodd dirprwyaeth o uwch wleidyddion o **Senedd Canada** – yr Anrhydeddus Jim Abbott AS, yr Anrhydeddus y Seneddwr Jim Munson, yr Anrhydeddus y Seneddwr Richard Neufeld, a'r Anrhydeddus Carolyn Bennett AS – â'r Senedd fel rhan o raglen tridiau ffurfiol o gyfnewid a dysgu.

- Ar 24 Mawrth, ymwelodd aelodau o **Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin** – Graham Allen AS (Cadeirydd), Fabian Hamilton AS, Andrew Griffiths AS, Eleanor Laing AS, Stephen Williams AS a Christopher Chope AS – â'r Cynulliad er mwyn cynnal trafodaethau â grŵp trawsbleidiol o Aelodau Cynulliad ar brofiad Cymru o amryw o faterion yn cynnwys llywodraeth glymblaid, y berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, systemau pleidleisio, a chyfnodau penodol y Cynulliad.

**Lincs**
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Hysbysiad Busnes y Cynulliad
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Am ragor o wybodaeth**–


**Cysylltwch â:**
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (**Gregg.Jones@wales.gov.uk**)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
**archebu@cymru.gov.uk**


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.